Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

CYSAG

Dyddiad ac Amser

3.30 y.h., DYDD MAWRTH, 17EG TACHWEDD, 2026

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

Pwynt Cyswllt

Jasmine Jones

01286 679667

jasminejones@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 9 Tachwedd 2026)

CYSAG

AELODAETH (7)

Plaid Cymru (5)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Jina Gwyrfai
Meryl Roberts
Elin Walker Jones
Paul John Rowlinson

Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
John Pughe Roberts

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor –

Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol

Natham Abrams	Iddewiaeth
Jean Owen	Ffydd Bahá'í
Mr Mohamed Arabi	Islam
Empty Seat	Undeb Bedyddwyr Cymru
Bethan Davies Jones	Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg
Edward Parri-Jones	Dyneiddwyr Eryri
Eirian Bradley Roberts	Yr Eglwys Gatholig
Dr Sibani Roy	Hindwaeth
Rev. Nick Sissons	Yr Eglwys Fethodistaidd
Patrycja Bielak Smith	Bwdhaeth
Gwawr Maelor Williams	Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Joanna Thomas	Yr Eglwys yng Nghymru

Athrawon

Miriam A. Amlyn	NAS/UWT
Sedd Wag	NEU
Emma Roberts	UCAC
Sedd Wag	NAHT

Aelodau Cyfetholedig

Eleri Moss	Penaethiaid Uwchradd

Ymgynghorydd Annibynnol

Philip Lord

R H A G L E N

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

3. MYFYRDOD TAWEL

4. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau.

5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

6. MATERION BRYS

Nodi unrhyw faterion sydd, ym marn y Cadeirydd, yn rhai brys i'w hystyried.

7. COFNODION 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2026 ac a oedd â chworwm, yn cael eu llofnodi fel cofnod cywir.

8. MATERION YN CODI

Ystyried y materion sy'n codi o gofnodion cyfarfod CYS a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2026.

9. IDDEWIAETH A CHYD-DESTUN GOGLEDD CYMRU

Cyflwyniad gan Dr Gareth Evans-Jones, Darlithydd mewn Athroniaeth a Chrefydd, Ysgol y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Bangor.

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL 10 - 31

Derbyn Adroddiad Blynyddol SAC(RE) Gwynedd ar gyfer 2024-25.

11. GWYNEDD A GWELLA YSGOLION

Derbyn cyflwyniad am sut mae Gwynedd yn trefnu'r gwaith o wella ysgolion.

12. CYFANSODDIAD AC AELODAETH CYSCGM GWYNEDD 32 - 35

- Trafod aelodaeth bresennol CYS.
- Ystyried y goblygiadau i Gyfansoddiad CYS Gwynedd.

13. <u>WASACRE</u> 36 - 42

- Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar 24 Mehefin 2026.
- Derbyn diweddariad llafar ar gyfarfod WASACRE ar 10 Tachwedd 2026.

14. <u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 02 CHWEFROR 2027 - 3:30YP</u>

C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL

11/02/2026

Presenoldeb :

Y Cynghorwyr : Menna Baines, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Anne Lloyd-Jones a Jina Gwyrfai.

Eraill:

Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol : Edward Parri-Jones (Dyneiddwyr Eryri), Rev. Nick Sissons (Yr Eglwys Fethodistaidd).

Athrawon : Miriam A Amlyn (NAS/UWT).

Swyddogion : Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Hefyd yn bresennol: Luke Donnellan.

1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Nick Sissons.

2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg)
- Cynghorydd Elin Walker Jones
- Cynghorydd Meryl Roberts
- Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru)
- Bethan Jones (yr Annibynwyr Cymraeg)
- Nathan Abrams (Iddewiaeth)
- Eleri Moss (Penaethiaid Uwchradd)

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

4. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2025 fel cofnodion cywir.

6. MATERION YN CODI

Cadarnhawyd bod enghreifftiau/templedi o bolisïau a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi eu rhannu gydag ysgolion heddiw.

Cadarnhawyd bod enghreifftiau o gwestiynau i werthuso CGM ac Addoli ar y Cyd wedi eu hysgrifennu a'u cyfieithu, ac y byddent yn cael eu rhannu gyda'r aelodau yn fuan.

7. DYNEIDDIAETH - MANTEISION CYNNWYS ARGYOEDDIADAU ATHRONYDDOL ANGREFYDDOL YNG NGHWRICWLWM CGM

Cyflwynwyd yr eitem gan Luke Donnellan, Cyfarwyddwr Deall Dyneiddiaeth, 'Humanists UK', ar Ddyneiddiaeth a'r manteision o gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yng nghwricwlwm CGM. Yn ystod y cyflwyniad, trafodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Nodwyd bod adran addysg 'Humanists UK' yn cefnogi athrawon mewn ysgolion ar draws y DU gydag adnoddau a gwasanaethau i addysgu am Ddyneiddiaeth fel rhan o addysg CGM eang a chytbwys.
- Rhoddwyd gwybodaeth gefndirol ynglŷn â CGM yng Nghymru, gan bwysleisio bod cwricwlwm CGM Cymru yn nodi'r angen i gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.
- Nodwyd bod argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn golygu "philosophical convictions which are based on a non-religious worldview as opposed to a religious worldview".
- Tanlinellwyd bod tri phrif fudd o gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yng nghwricwlwm CGM, sef ei fod yn gyfoethog o ran gwybodaeth, ei fod yn cefnogi cyd-ddealltwriaeth a chydlyniant cymdeithasol, a'i fod yn annog datblygiad personol.
- Nodwyd bod pum prif gred yn gysylltiedig â Dyneiddiaeth, yn ogystal â'r ffaith ei bod yn anghrefyddol, sef bod pobl yn rhan o natur, bod dealltwriaeth wyddonol o'r byd yn bwysig, mai dim ond un bywyd sydd gan bawb, nad yw moeseg yn ddibynnol ar grefydd, a bod gan bobl gyfrifoldeb i wneud y byd yn well.
- Nodwyd bod cyfran uwch o boblogaeth Cymru yn nodi eu bod yn anghrefyddol (47%) nag yn grefyddol (44%) yn ôl canlyniadau'r cyfrifiad, gyda thua thraean i hanner y boblogaeth anghrefyddol yn arddel credoau Dyneiddiaeth.
- Nodwyd bod nifer o Gymry enwog hanesyddol yn cael eu hadnabod fel dyneiddwyr.
- Nodwyd bod sawl adnodd ar gael ar wefan 'Humanists UK', understandinghumanism.org.uk, er mwyn cefnogi addysgu am y pwnc, gydag adnoddau penodol i athrawon yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog.
- Nodwyd bod y llyfr 'My Humanist Family' ar gael er mwyn cefnogi addysgu am y pwnc i blant ifanc.

Diolchwyd am y cyflwyniad.

Cwestiynwyd faint o amser a roddir i addysgu Dyneiddiaeth mewn ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yr ateb yn glir, ond bod tystiolaeth yn dangos nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i bwnc CGM yn gyffredinol, ac felly bod hynny'n effeithio ar y cyfle i ddisgyblion ddysgu am Ddyneiddiaeth. Nodwyd, er bod y cwricwlwm wedi newid, fod yr amser a neilltuir i argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn parhau i fod yn isel, o bosibl oherwydd y cyfnod trawsnewid i'r cwricwlwm newydd neu oherwydd gwrthwynebiad o fewn rhai ysgolion i'w cynnwys. Pwysleisiwyd bod 'Humanists UK' yn gwneud popeth o fewn ei allu i gyfathrebu ag ysgolion er mwyn cynnig

adnoddau dysgu a hyfforddiant i helpu i hwyluso'r cyfnod trawsnewid hwn. Tanlinellwyd bod pethau'n gwella yn hyn o beth, ond bod llawer o waith i'w wneud o hyd.

Cwestiynwyd a oedd Dyneiddwyr yn dod at ei gilydd yn rheolaidd fel cymuned. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn amrywio o un Dyneiddiwr i'r llall. Nodwyd bod sefydliadau Dyneiddwyr, megis 'Humanists UK', yn cynnal digwyddiadau blynyddol, a bod grwpiau mwy lleol o Ddyneiddwyr yn cynnal digwyddiadau er mwyn hybu cymdeithasu. Pwysleisiwyd bod cyfleoedd ar gael, ond nad oedd unrhyw rwymedigaeth ar unigolion i gymryd rhan. Pwysleisiwyd bod mwy o waith i'w wneud ar lefel gymdeithasol i gefnogi pobl i deimlo ymdeimlad o berthyn i gymuned.

Cwestiynwyd sut yr oedd Dyneiddwyr yn ymdrin â moesoldeb a phechod o fewn eu hathroniaeth. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y byd yn lle delfrydol, ond bod pethau ar y cyfan wedi gwella i bobl dros y blynyddoedd o ran safon byw, rhyddid a democratiaeth. Cydnabuwyd bod nifer o heriau yn parhau i wynebu'r byd, ac nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai pethau'n parhau i wella dros y blynyddoedd. Pwysleisiwyd nad athroniaeth ddelfrydol oedd Dyneiddiaeth, ond ei bod yn credu mewn ceisio creu byd gwell, nid byd perffaith, drwy weithredoedd dynol yn hytrach na thrwy bŵer dwyfol. Nodwyd bod Dyneiddwyr yn credu mewn ceisio cyfiawnder yn y bywyd hwn, yn hytrach nag mewn bywyd ar ôl marwolaeth. Pwysleisiwyd bod dioddefaint yn rhan o'r byd yr ydym yn byw ynddo, ac mai'r hyn y gellid ei wneud oedd ceisio ei leihau a'i liniaru lle bo hynny'n bosibl.

Cwestiynwyd a oedd lledaenu Dyneiddiaeth yn bwysig yn yr un ffordd ag yr oedd i Gristnogaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod y rhan fwyaf o Ddyneiddwyr yn erbyn efengylu. Ymhelaethwyd nad oedd gan Ddyneiddiaeth nod o greu Dyneiddwyr newydd na lledaenu'r athroniaeth. Pwysleisiwyd bod Dyneiddwyr yn credu mewn rhyddid cred, ac yn cefnogi hawl pobl i ddysgu am amrywiaeth o grefyddau ac athroniaethau er mwyn eu galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Cwestiynwyd faint o aelodau CYSAG mewn siroedd eraill yng Nghymru oedd yn Ddyneiddwyr. Mewn ymateb, pwysleisiwyd bod gan bob Pwyllgor CYSAG yng Nghymru gynrychiolydd Dyneiddwyr, a bod gan dros 90% o CYSAGau yn Lloegr gynrychiolaeth Ddyneiddwyr. Nodwyd bod hyn yn welliant sylweddol, gan mai dim ond tua 50% o CYSAGau oedd â chynrychiolaeth tua phum mlynedd yn ôl.

Cwestiynwyd a fyddai modd derbyn cyflwyniad gan bob cynrychiolaeth ffydd er mwyn i aelodau'r Pwyllgor dderbyn mwy o wybodaeth yn y maes. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn syniad da, ac awgrymwyd gwahodd Nathan Abrams i roi cyflwyniad ar Iddewiaeth. Awgrymwyd hefyd y dylid anfon y cyflwyniadau ymlaen i ysgolion er mwyn iddynt gael eu defnyddio fel adnoddau dysgu.

Diolchwyd i Edward Parry-Jones am gyflwyno cais i fod yn aelod o GYSAG Gwynedd, gan bwysleisio bod ychwanegu cynrychiolaeth o grefyddau anghristnogol ac argyhoeddiadau anghrefyddol wedi bod yn gam enfawr ymlaen i'r Pwyllgor CYSAG.

8. CYNLLUN DATBLYGU CYSAG 2025-26

Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Lord, Ymgynghorydd Annibynnol, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod modd defnyddio'r cynllun datblygu i esbonio, fel rhan o'r adroddiad blynyddol, yr hyn a gyflawnwyd.
- Bod tair prif flaenoriaeth yn y cynllun datblygu, sef datblygu effeithiolrwydd CYSAG, monitro a chefnogi darpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion yr Awdurdod Lleol, a monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod.
- Bod y gweithgareddau o dan flaenoriaeth un yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn yr adroddiad blynyddol, gan gynnwys adnoddau perthnasol ar gyfer ysgolion.

- Bod y gweithgareddau o dan flaenoriaeth dau yn cynnwys darparu deunyddiau monitro a pholisïau enghreifftiol, gan gynnwys y polisi sy'n ymwneud â'r ffaith nad oes gan rieni hawl bellach i dynnu eu plant yn ôl o wersi CGM.
- Bod y gweithgareddau o dan flaenoriaeth tri yn cynnwys Cynghorwyr ac aelodau CYSAG sy'n llywodraethwyr ysgol yn treialu'r cwestiynau ac yn adrodd yn ôl i CYSAG.
- Bod y cynllun ar gyfer y flwyddyn hon, a bod modd ychwanegu gweithgareddau i'r cynllun yn y blynyddoedd i ddod.

Diolchwyd am y cyflwyniad. Mynegwyd y farn bod datgysylltiad rhwng yr hyn a oedd yn digwydd o fewn ysgolion a'r hyn yr oedd CYSAG yn ymwybodol ohono, ac felly croesawyd y cynllun datblygu a'i flaenoriaethau er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael dylanwad cadarnhaol ar ysgolion.

Cwestiynwyd yr amserlen, gan holi a oedd yn realistig y byddai popeth yn cael ei gyflawni erbyn tymor yr haf. Mewn ymateb, nodwyd bod yr adnoddau i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol eisoes wedi eu creu. Nodwyd hefyd bod yr elfen o Lywodraethwyr yn mynd i ysgolion i dreialu cwestiynau yn ddibynnol ar gymorth yr aelodau er mwyn llwyddo i gyrraedd y targed amser.

Cwestiynwyd a oedd bwriad i aelodau CYSAG nad oeddent yn Llywodraethwyr fynd i ysgolion er mwyn treialu'r cwestiynau. Mewn ymateb, nodwyd mai'r bwriad oedd i aelodau oedd yn Llywodraethwyr dreialu'r cwestiynau yn gyntaf cyn ehangu'r drefn i aelodau eraill CYSAG. Awgrymwyd y dylai'r Adran Addysg ofyn i ysgolion nad oeddent yn gysylltiedig ag aelod o GYSAG wirfoddoli i dderbyn ymweliad gan aelod o GYSAG, er mwyn iddynt ofyn y cwestiynau ac arsylwi addoli ar y cyd o fewn eu hysgolion.

9. RHEOLI'R HAWL I DYNNU'N ÔL O CGM

Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Lord, Ymgynghorydd Annibynnol, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod gwersi CGM, yn hanesyddol, wedi canolbwyntio llawer mwy ar gredoau Cristnogol lleol, ac felly bod teimlad ar y pryd bod yr hawl i dynnu'n ôl yn angenrheidiol.
- Bod gwersi CGM wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd i fod yn aml-gred, ond er hynny bod yr hawl i dynnu'n ôl wedi parhau tan 2022, pan ddiddymodd Llywodraeth Cymru hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o CGM.
- Bod achosion wedi codi lle'r oedd rhieni yn dymuno tynnu eu plant yn ôl o CGM, er nad oedd ganddynt yr hawl i wneud hynny, ac y gallai hyn greu problemau o fewn ysgolion.
- Bod y ddogfen wedi ei chynhyrchu er mwyn categoreiddio pryderon rhieni ynglŷn â CGM, a rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r camau gweithredu gorau i ddelio â'r pryderon hynny.
- Bod y ddogfen yn mynd i fod yn ddefnyddiol i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb mewn ffordd briodol pe bai unrhyw achosion neu bryderon yn codi yn y dyfodol.

Diolchwyd am y cyflwyniad. Nodwyd bod y ddogfen yn ddefnyddiol iawn, a'i bod yn well paratoi'n rhagweithiol yn hytrach nag aros i achos godi cyn creu dogfen i roi cymorth i ysgolion.

Cwestiynwyd a oedd bwriad i anfon copi o'r ddogfen i bob ysgol yn y sir. Mewn ymateb, awgrymwyd y dylai'r Adran Addysg wneud y ddogfen yn hygyrch ar SharePoint addysg er mwyn i athrawon wybod ei bod ar gael pe bai angen. Cwestiynwyd a oedd unrhyw ddogfennau o'r fath ar gael eisoes. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd dogfennau ar gael yng Ngwynedd ar gyfer ysgolion y sir.

Cwestiynwyd a oedd yr hawl i dynnu plant yn ôl o CGM yn cynnwys addoli ar y cyd. Mewn ymateb, nodwyd bod yr hawl i dynnu'n ôl o addoli ar y cyd yn parhau i fodoli.

Mynegwyd cefnogaeth i'r ddogfen ac i'w nod o gefnogi ysgolion i ddarparu CGM. Awgrymwyd newid y geiriad yn y ddogfen ynglŷn â gwrthod CGM am resymau hiliol neu resymau rhagfarnllyd.

10. CCYSAGAUC

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2025.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.40 y.p. a daeth i ben am 5:15 y.p.

_____

CADEIRYDD

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (ar gyfer Addysg Grefyddol)

Adroddiad
Blynyddol
Gwynedd

Medi 2025 – Awst 2026

Pennaeth yr Adran Addysg

Mr Gwern ap Rhisiart

CYNNWYS

ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL
1.1 Cyflwyniad gan Gadeirydd CYS(AG): Y Cynghorydd Menna Baines

ADRAN 2: CYNGOR I GYNGOR GWYNEDD
2.1 Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn Lleol
2.3 Pa mor dda yw'r safonau?
2.4 Ymateb Cyngor Gwynedd
2.5 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Llywodraeth Cymru
2.6 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

ADRAN 3: ATODIADAU

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYS(AG)
3.2 Aelodaeth CYS(AG) Gwynedd 2023-24
3.3 Cyfarfodydd CYS(AG) 2024/25
3.4 CGM – Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol

ADRAN 1:
CRYNODEB GWEITHREDOL

Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Grefyddol

Mae'r gofynion ar Awdurdodau Lleol o ran Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig wedi'u nodi yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022, Rhan 3, Adran 9 (3.1A) a Rhan 3, Adran 7(7), ac Adran 390 o Ddeddf Diwygio Addysg 1996.

Mae CYS(AG) yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion sy'n ymwneud â darparu Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu corff *ad hoc*, sef y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig, i lunio neu ystyried diwygiadau i'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

1.1 Cyflwyniad gan y Cadeirydd

SECTION 2: ADVICE to GWYNEDD EDUCATION DEPARTMENT

2.1 Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae'r gofynion ar awdurdodau lleol o ran Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog (ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg) a Chynadleddau Maes Llafur Cytûn wedi'u nodi yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2022, Rhan 3 Adran 9 (3.1A) a Rhan 3 Adran 7(7), ac Adran 390 o Ddeddf Diwygio Addysg 1996.

Mae CYS(AG) yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion sy'n ymwneud â darparu Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac addoli ar y cyd, ac mae'n gyfrifol am sefydlu corff ad hoc, y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn, i lunio neu ystyried diwygiadau i'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

2.2 Y Maes Llafur Cytûn Lleol

Prif swyddogaeth CYS(AG) yw '...cynghori'r awdurdod ar faterion sy'n ymwneud ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol a'r Addysg Grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn, y gall yr awdurdod eu cyfeirio at y cyngor neu y gall y cyngor ystyried eu bod yn briodol.' (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11 (1) (a)).

Yn flaenorol, mabwysiadodd CYS(AG)au Gwynedd ac Ynys Môn y 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel y Maes Llafur Cytûn Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn (2008). Oherwydd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru fesul cam, roedd y Maes Llafur hwn yn berthnasol i ddysgwyr blwyddyn 11 yn ystod 2025-26.

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd ei Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ar 1 Chwefror 2022 i adolygu'r maes llafur ac argymell maes llafur priodol i'r Awdurdod Lleol ei fabwysiadu.

Mabwysiadwyd y Maes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i adlewyrchu canllawiau a luniwyd gan ymarferwyr ac arbenigwyr Addysg Grefyddol. Diben y maes llafur yw darparu cymorth ychwanegol ar sut y gellir addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn maes y Dyniaethau. Mae Maes Llafur Cytûn Gwynedd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn seiliedig ar Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'r canllawiau'n pwysleisio bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan annatod o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Maent hefyd yn amlinellu cyfraniad unigryw a phenodol y pwnc at y Cwricwlwm i Gymru.

Gellir cael mynediad at y Canllawiau isod:

- https://hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/meysydd-dysgu-a-phrofiad/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#section-0-4
- https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/areas-of-learning-and experience/humanities/designing-your-curriculum/#section-0-4

Yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26, yn unol â'r newidiadau i'r Cwricwlwm i Gymru 2022, addysgwyd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i bob plentyn ysgol gynradd ac i ddysgwyr ym mlynyddoedd 7, 8, 9 a 10. Ym mlwyddyn academaidd 2025-26, parhaodd ysgolion uwchradd i addysgu'r cwricwlwm cyn 2022 (a elwir yn Gwricwlwm i Gymru 2008), gan gynnwys y Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol, i ddisgyblion blwyddyn 11.

Mae'r Maes Llafur Cytûn, sy'n cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm i Gymru 2022 newydd, yn ymwneud â'r pwnc o'r enw 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Mae'r Maes Llafur Cytûn blaenorol, sy'n dal yn berthnasol i ysgolion uwchradd am y rhesymau a ddisgrifir uchod, yn ymwneud â'r pwnc o'r enw 'Addysg Grefyddol'. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig.

2.3 Pa mor dda yw'r safonau?

Mewn blynyddoedd blaenorol, mae CYS(AG) Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd drwy:
dderbyn crynodeb o adroddiad hunanwerthuso ysgol mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN; dadansoddi asesiadau athrawon yr Awdurdod Lleol a chanlyniadau arholiadau uwchradd; adolygu adroddiadau arolygu ESTYN am gyfeiriadau at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da ag aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol, a derbyn gwahoddiadau ysgolion i fynychu sesiwn addoli ar y cyd.

2.3.1 Adroddiadau hunanwerthuso ysgolion

Penderfynodd aelodau CYS(AG) yn eu cyfarfod ar 9 Chwefror 2011 barhau i dderbyn copïau o hunanwerthusiadau ysgolion o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd, a gofynnwyd i benaethiaid ddefnyddio templed diwygiedig.

Ni dderbyniwyd unrhyw hunanwerthusiadau ysgolion ers pandemig COVID-19. Ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd ddarparu hunanwerthusiadau ar gyfer CYS(AG) Gwynedd.

2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

Oherwydd canllawiau parhaus Llywodraeth Cymru ar y ffordd y cyflwynir data, ac er mwyn osgoi cymariaethau mympwyol rhwng ysgolion, ni chyflwynwyd data arholiadau cymharol i aelodau ac nid oeddent yn gallu trafod data ar gyfer arholiadau a ddyfarnwyd yn 2025/26.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r tueddiadau yn nifer y disgyblion sy'n dilyn Addysg Grefyddol ar lefel TGAU.

Ysgol	2022 (Cwrs Byr)		2022 (Cwrs Llawn)		2023		2024		2025	
YSGOL BOTWNNOG		0.0%	1	1.4%	15	14.4%	10	10.9%	7	7.8%
YSGOL BRO IDRIS		0.0%	5	6.3%	6	14.0%	15	11.6%	11	28.9%
YSGOL BRYNREFAIL		0.0%	11	8.5%	9	6.7%	6	9.8%	7	5.4%
YSGOL DYFFRYN NANTLLE	1	1.4%	14	20.3%	8	11.4%	9	16.4%		0.0%
YSGOL DYFFRYN OGWEN		0.0%	10	11.9%	11	16.4%	10	14.5%	3	4.0%
YSGOL EIFIONYDD		0.0%	5	7.0%	4	5.6%	101	42.8%	9	11.3%
YSGOL FRIARS	84	35.4%	88	37.1%	127	56.7%	8	7.5%	79	35.9%
YSGOL GODRE'R BERWYN		0.0%	6	5.9%	10	11.0%	21	32.3%	16	25.8%
YSGOL TRYFAN		0.0%	43	27.0%	10	13.9%	14	18.4%	10	10.3%
YSGOL Y MOELWYN	1	1.4%	6	8.2%	34	22.4%	10	14.5%	10	16.7%

2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Mae Mair Huws, Swyddog Adnoddau Addysg Cynorthwyol Cyngor Gwynedd, yn sicrhau bod unrhyw ganllawiau neu argymhellion a wneir gan CYS(AG) Gwynedd yn cael eu cyfathrebu'n uniongyrchol i benaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd.

Hyd at fis Ebrill 2018, roedd Cyngor Gwynedd yn comisiynu GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) i gefnogi cyfarfodydd CYS(AG) Gwynedd ac i gynrychioli CYS(AG) Gwynedd mewn cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Ym mis Mawrth 2018, hysbyswyd clerc CYS(AG) Gwynedd na fyddai GwE yn darparu cymorth proffesiynol i CYS(AG) Gwynedd mwyach.

Gweithredodd ysgolion cynradd a rhai ysgolion uwchradd y Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022 (ac o fis Medi 2023 yn achos rhai ysgolion uwchradd). Felly, mae addysg yng nghanol cyfnod o newid mawr, a oedd yn ei gwneud yn anodd monitro safonau mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Grefyddol yn ystod y blynyddoedd dilynol.

Yn dilyn trafodaeth bellach â'r Awdurdod Lleol, cytunwyd y byddai Phil Lord, ymgynghorydd CGM annibynnol, yn dechrau cefnogi CYS(AG) Gwynedd o dymor yr haf 2025.

2.5 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Llywodraeth Cymru

- Mae 'Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021' yn nodi'n benodol fod yn rhaid i unrhyw faes llafur cytûn ar gyfer CGM adlewyrchu credoau crefyddol a hefyd gredoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol. Roedd 'Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol' eisoes wedi'u cynnwys ym Maes Llafur Cytûn Gwynedd. Mae cyfansoddiad CYS(AG) Gwynedd wedi'i ddiwygio i gynnwys aelodaeth Dyneiddwyr Prydain (BHA) fel rhan o Bwyllgor A. Mae aelod o'r BHA yn eistedd ar Bwyllgor A.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i gomisiynu Phil Lord fel ymgynghorydd proffesiynol i gefnogi gwaith CYS(AG) Gwynedd.
- Croesawodd aelodau CYS(AG) Joanna Thomas, cyfarwyddwr Addysg newydd Esgobaeth Bangor yr Eglwys yng Nghymru.
- Lluniodd CYS(AG) gynllun datblygu i gefnogi ei gymorth strategol ar gyfer CGM ac Addoli ar y Cyd. Mae ganddo dair blaenoriaeth:
    - Blaenoriaeth 1: Datblygu effeithiolrwydd CYS(AG).
    - Blaenoriaeth 2: Monitro a chefnogi darpariaeth AG a CGM yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.
    - Blaenoriaeth 3: Monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.
- Hysbyswyd aelodau CYS(AG) am gynhadledd haf Fforwm Ewropeaidd Athrawon AG (EFTRE) yn Budapest.
- Rhoddodd Luke Donnellan, cyfarwyddwr Understanding Humanism, gyflwyniad am adnoddau defnyddiol i ysgolion.
- Lluniwyd ystod o ddeunyddiau i helpu ysgolion i reoli dileu'r hawl i dynnu disgyblion yn ôl o CGM, ac maent ar gael i ysgolion.
- Rhoddodd Anna Silver gyflwyniad am adnoddau i helpu ysgolion i addysgu am Iddewiaeth.

2.6 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac ESTYN

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cyflwynwyd adroddiadau arolygu 13 ysgol i aelodau CYS(AG). Arolygwyd yr ysgolion rhwng mis Mai 2025 a mis Ionawr 2026.

- Ysgol Santes Helen
- Ysgol Llanystumdwy
- Ysgol Bro Hedd Wyn
- Ysgol Ein Harglwyddes
- Ysgol Gynradd Talysarn
- Ysgol Brynaerau
- Ysgol Llandygai
- Ysgol Eifion Wyn
- Ysgol Llanllyfni

- Ysgol Abercaseg
- Ysgol Pen-y-bryn
- Ysgol Y Gelli
- Ysgol Gynradd Bontnewydd

Nid oes barnau am bynciau yn fframwaith arolygu presennol Estyn. Yn hytrach, mae aelodau'n derbyn gwybodaeth o'r adroddiadau sy'n ymwneud â sylwadau Estyn ar ddarpariaeth ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Nid oes disgwyl i arolygwyr adrodd ar a yw ysgol yn cyflawni'r ddyletswydd statudol i ddarparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd, ond byddai disgwyl sylw yn yr adroddiad pe canfyddid bod ysgol yn torri ei dyletswydd statudol.

Fel rhan o'r broses fonitro, dadansoddir Adroddiadau Arolygu Estyn am sylwadau ar addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae CYS(AG) yn casglu ac yn nodi'r rhain.

2.7 Swyddogaeth CYS(AG) mewn perthynas ag addoli ar y cyd

Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94 yn nodi y dylai'r Awdurdod Addysg Lleol weithio gyda CYS(AG) i fonitro'r ddarpariaeth ddyddiol o addoli ar y cyd, ac y dylai ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellir eu cymryd i wella'r ddarpariaeth honno.

Rhaid i'r addoli ar y cyd fod "o gymeriad Cristnogol yn fras". Mae'r weithdrefn "penderfyniad" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu bob un o'r disgyblion mewn ysgol lle bernir eu bod yn amhriodol.

Mae aelodau CYS(AG) ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn dogfennau canllaw ar addoli ar y cyd yn flaenorol:
Canllawiau ar Addoli ar y Cyd (WASACRE, Mehefin 2013)
Canllawiau atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017);

2.8 Penderfyniadau

Ni dderbyniwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd

Argymhellion CYS(AG) i Gyngor Gwynedd

Sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofyniad statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac yn darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;

Annog ysgolion i wahodd aelod o CYS(AG) Gwynedd i fynychu addoli ar y cyd mewn ysgolion

SECTION 3: ANNEXES

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYS(AG)

a) Sefydlwyd CYS(AG) gan Bwyllgor Addysg Gwynedd yn 1996 i

gynnwys: Cristnogion a Ffyddoedd Eraill, sef:

- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
- Yr Eglwys Gatholig

Athrawon, sef;

- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

Aelodau etholedig

b) Adolygwyd Cyfansoddiad CYS(AG) Gwynedd ym mis Ebrill 2019 i gynnwys:

- Cristnogaeth a chrefyddau eraill – cadw 6 chynrychiolydd, un o bob un o'r traddodiadau cred canlynol: Bwdhaeth, Islam, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Sikhiaeth a chredoau Dyneiddiol
- Cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid – cadw 5
- Aelodau Etholedig – cadw 7
- Aelodau Cyfetholedig – Pwyllgor CYS(AG) i gadw'r hawl i gyfethol aelodau
- mae 3 phleidlais, sef 1 ar gyfer pob Grŵp – nid oes gan yr aelodau Cyfetholedig bleidlais

c) Adolygwyd y Cyfansoddiad ymhellach ym mis Medi 2022 i ddiwygio'r grŵp Athrawon fel a ganlyn:

- Cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid – cadw 5. Dyrannu'r seddi fel a ganlyn:

Rhannu 3 sedd rhwng yr Undebau Athrawon cydnabyddedig (NAS/UWT; UCAC; NEU;

ASCL a NAHT) – i'w benderfynu gan Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd.

Llenwi 1 sedd gan Grŵp Ymgynghorol Dalgylchoedd Cynradd ac Arbennig (GYDCA)

Llenwi 1 sedd gan Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU)

3.2 Aelodaeth CYS(AG) Gwynedd 2023-24

Cristnogion a Chrefyddau Eraill

Yr Eglwys Fethodistaidd	Y Parchedig Nick Sissons
Undeb Bedyddwyr Cymru	Eurfryn Davies
Eglwys Bresbyteraidd Cymru	Gwawr Maelor Williams
Yr Eglwys yng Nghymru	Joanna Wood
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg	Bethan Davies Jones
Yr Eglwys Gatholig	Eirian Bradley Roberts
Bwdhaeth	Patrycja Bielak Smith
Dyneiddwyr	Edward Parri-Jones
Iddewiaeth	Nathan Abrams
Islam	Mr Mohamed Arabi
Hindŵaeth	Dr Sibani Roy
Ffydd Bahá'í	Jean Owen

Cynrychiolwyr athrawon

UCAC	Emma Roberts (Ysgol Botwnnog)
NASUWT	Miriam Amlyn (Ysgol Eifionydd)
NEU	Heledd Owen (Ysgol Friars)
NAHT	Sedd wag
Grŵp Penaethiaid Uwchradd (GSCU)	Eleri Moss (Ysgol y Moelwyn)

Aelodau Lleol

Y Cynghorydd Paul Rowlinson	Plaid Cymru
Y Cynghorydd Meryl Roberts Y	Plaid Cymru
Cynghorydd Elin Walker Jones	Plaid Cymru
Y Cynghorydd Menna Baines Y	Plaid Cymru
Cynghorydd Jina Gwyrfai Y	Plaid Cymru
Cynghorydd Anne Lloyd Jones	Annibynnol
Y Cynghorydd John Pughe Roberts	Annibynnol

Aelodau cyfetholedig (heb bleidlais)

Swyddogion

Gwern ap Rhisiart	Pennaeth yr Adran Addysg
Mair Huws	Swyddog adnoddau addysg cynorthwyol a chlerc CYS(AG)
Rhodri Jones	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

3.3 Cyfarfodydd CYS(AG) 2025-26

Gellir cael dyddiadau'r cyfarfodydd drwy ymweld â CYSAG Gwynedd. Yn ystod 2025-2026, cyfarfu CYS(AG) Gwynedd dair gwaith drwy Zoom:

18th Techwedd 2025
11th Chwefror 2026
30 Mehefin 2026 – Heb Gworwm

Trafodwyd y materion canlynol, ac mae rhagor o fanylion yn y cofnodion ac ym mhrif gorff yr adroddiad:

a) 18 Tachwedd 2025

- Cyflwynodd Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol) restr chwarae CGM Llywodraeth Cymru, gan egluro bod yr adnoddau wedi'u comisiynu drwy WASACRE i gefnogi ysgolion wrth bontio i'r cwricwlwm newydd ac egluro'r gwahaniaethau rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ac Addysg Grefyddol. Mae'r rhestr chwarae'n cynnwys chwe modiwl ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Penaethiaid a Llywodraethwyr, gyda'r chweched modiwl newydd yn cefnogi llywodraethwyr yn benodol. Mae pob modiwl yn cynnwys elfennau ymarferol ac enghreifftiau cryf o'u defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r modiwl i benaethiaid yn amlinellu goblygiadau newidiadau i'r cwricwlwm, gan gynnwys dileu hawl rhieni i dynnu plant yn ôl o CGM a hawl athrawon i beidio ag addysgu'r pwnc, ynghyd â'r goblygiadau staffio cysylltiedig.

- Cyflwynodd Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol) bolisïau enghreifftiol CGM ac addoli ar y cyd i gefnogi ysgolion mewn trafodaethau â rhieni. Mae'r polisi CGM sylfaenol yn egluro nodau'r pwnc o feithrin dealltwriaeth a goddefgarwch o grefyddau amrywiol Cymru, manteision y cwricwlwm newydd a dileu hawl rhieni i dynnu plant yn ôl, gan gynnig cymorth ac amddiffyniad i ysgolion sy'n wynebu pryderon. Mae'r polisi addoli ar y cyd mwy cynhwysfawr, sydd wedi'i deilwra ar gyfer ysgolion Gwynedd, yn darparu sail ar gyfer deialog ac yn diffinio addoli fel amser i gymuned yr ysgol fyfyrio ar werthoedd pwysig, gan dynnu ar y traddodiad Cristnogol, ond nid ar hwnnw'n unig; gellid atodi cwestiynau gwerthuso dewisol.

- Adroddodd Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol) ar Gynhadledd EFTRE 2025 yn Hwngari, a fynychwyd gan 60 o gynrychiolwyr o bob rhan o Ewrop. Nododd fod Addysg Grefyddol yn gyffredinol yn gyffesol yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, gyda phresenoldeb cryf gan yr eglwys yn yr Almaen yn dibynnu ar y rhanbarth, tra bod darpariaeth Sgandinafaidd yn debycach i ddarpariaeth Cymru ond yn rhoi mwy o bwyslais ar wybodaeth na thrafodaeth. Roedd y cyflwyniadau a fynychodd yn archwilio annog cwestiynu mewn gwersi, pryderon nad oedd gan blant yr eirfa i drafod materion y byd go iawn megis rhyfel a'r pandemig gan fod y cwestiynau hyn yn cael eu codi'n llai aml yn y gymdeithas, a'r berthynas rhwng Iddewiaeth ac Islam. Adroddodd hefyd fod cais wedi'i gyflwyno i gynnal Cynhadledd EFTRE 2026 yng Nghaerdydd.

b) 11 Chwefror 2026

- Amlinellodd Luke Donnellan, Cyfarwyddwr Understanding Humanism yn Humanists UK, fanteision cynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yng nghwricwlwm CGM Cymru: cyfoethogi gwybodaeth, hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth a chydlyniant cymdeithasol, a chefnogi datblygiad personol. Disgrifiodd Ddyneiddiaeth fel bydolwg anghrefyddol sy'n pwysleisio lle dynoliaeth ym myd natur, dealltwriaeth wyddonol, un bywyd, moeseg sy'n annibynnol ar grefydd a chyfrifoldeb am wella'r byd. Tynnodd sylw at adnoddau a hyfforddiant i athrawon, deunyddiau dwyieithog i Gymru a'r llyfr 'My Humanist Family' i blant ifanc.

- Cyflwynodd Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol) ganllawiau ar reoli ceisiadau rhieni i dynnu plant yn ôl o CGM, gan amlinellu'r newid hanesyddol o addysgu Cristnogol lleol yn bennaf i ddarpariaeth aml-ffydd, a dileu hawl rhieni i dynnu plant yn ôl o CGM yn 2022. Mae'r ddogfen yn categoreiddio pryderon rhieni ac yn awgrymu ymatebion priodol i gefnogi ysgolion pan fydd ceisiadau'n codi er nad oes hawl i dynnu plant yn ôl. Diolchodd aelodau iddo a chroesawu'r canllawiau fel adnodd rhagweithiol, gan nodi nad oedd dogfen gyfatebol ar gael i ysgolion Gwynedd. Awgrymwyd y dylai'r Adran Addysg sicrhau eu bod ar gael i athrawon drwy SharePoint addysg.

c) 30 Mehefin 2026 – Heb Gworwm

Mae CYS(AG) Gwynedd wedi ymaelodi â Chymdeithas CYS(AG)au Cymru, ac mae ei aelodau'n mynychu cyfarfodydd WASACRE yn rheolaidd.

3.3.1 Mae'r canlynol yn darparu cymorth proffesiynol i CYS(AG):

Gwern ap Rhisiart	Pennaeth yr Adran Addysg
Mair Huws	Swyddog gwella addysg cynorthwyol a chlerc CYS(AG)
Rhodri Jones	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Phil Lord	Ymgynghorydd CGM Annibynnol

Dylid anfon ymholiadau at Glerc CYS(AG) yn yr Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

3.3.2 Anfonwyd adroddiad CYS(AG) at y sefydliadau canlynol:

Dosberthir copïau electronig o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Adran Addysg Gwynedd
- Arweinydd Cyngor Gwynedd
- Cymdeithas CYS(AG)au Cymru
- Ysgolion Gwynedd

Dosbarthwyd copi i:

- Aelodau CYS(AG) Gwynedd


Atodiad 3.3.4 CGM - Dolenni ac Adnoddau Defnyddiol

1) Maes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (Cwricwlwm i Gymru 2022)
2) Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol (Cwricwlwm i Gymru 2008)
3) Estyn
4) Polisi CGM Enghreifftiol
5) Cwricwlwm i Gymru 2022 (fideo hyfforddi – ALl Sir Ddinbych)
6) Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg – Canllawiau Ategol (ALl Conwy)
7) Dadansoddi Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Uwchradd) (hyfforddiant GwE)
8) Canllaw Cynhwysfawr i AG ac AG yn y Cyfnod Sylfaen
9) Marc Ansawdd Addysg Grefyddol
10) Rhwydwaith AG Gogledd Cymru ar Hwb
11) RE:Online
12) Dyfarniad lefel 2 AGORED Cymru mewn archwilio bydolygon
13) TGAU Astudiaethau Crefyddol CBAC - Addysgu o 2025
14) Dysgu proffesiynol am amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL)
15) Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Grefyddol
16) RE Today Services
17) Challenging Religious Issues ÔI-16 (E-Gyfnodolyn)
18) Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol
19) Modiwlau Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru ar gyfer CGM
20) Dysgu Proffesiynol ar Faes Llafur Cytûn Conwy
21) RE HUBS
22) Canolfan Genedlaethol AG Cymru (Bangor)
23) Canolfan San Silyn (Wrecsam)

1) **Maes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (Cwricwlwm i Gymru 2022)**
Cyhoeddodd Awdurdod Lleol Gwynedd ei Faes Llafur Cytûn lleol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ystod haf 2023. Mae'r Maes Llafur Cytûn yn seiliedig ar Ganllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Llywodraeth Cymru.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25, yn unol â'r newidiadau i Gwricwlwm i Gymru 2022, addysgwyd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i bob plentyn ysgol gynradd ac i ddysgwyr ym mlynyddoedd 7, 8 a 9.

Ym mlwyddyn academaidd 2024-25, parhaodd ysgolion uwchradd i addysgu'r cwricwlwm cyn 2022 (a elwir yn Gwricwlwm i Gymru 2008), gan gynnwys y Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol, i ddisgyblion ym mlynyddoedd 10 ac 11.


CONTENTS

Cross-curricular skills and integral skills

Specific considerations for this Area

Key links with other Areas

Cross-cutting themes

Religion, values and ethics guidance

Religion, values and ethics guidance

Introduction

Mandatory

Religion, values and ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16. RVE forms part of the Humanities Area. This Area encompasses geography; history; religion, values and ethics; business studies; social studies. These disciplines share many common themes, concepts and transferable skills, whilst having their own discrete body of knowledge and skills.

There is no parental right to request that a child is withdrawn from RVE in the Curriculum for Wales.

The purpose of this RVE guidance

This RVE guidance has been written by practitioners and religious education experts to provide additional support on how RVE can be taught within the Humanities Area. It emphasises the integral nature of RVE within this Area and outlines the unique and distinct contribution that RVE makes to the Curriculum for Wales.


CYNNWYS

Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol

Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn

Cysyltiadau allweddol gyda Meysydd eraill

Themâu trawsgwricwlaidd

Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Cyflwyniad

Mandadol

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau (Maes). Mae'r Maes hwn yn cynnwys daearyddiaeth; hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; astudiaethau busnes; astudiaethau cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosgwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd.

Nid oes gan rieni hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru.

Diben y canllawiau hyn ar grefydd, gwerthoedd a moeseg

Cafodd y canllawiau hyn ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg eu hysgrifennu gan ymarferwyr ac arbenigwyr addysg grefyddol er mwyn rhoi cymorth ychwanegol o ran sut y gellir addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Maes y Dyniaethau. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys:


2) **Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol (Cwricwlwm i Gymru 2008)**



Mae'r Maes Llafur Cytûn newydd, sy'n cydymffurfio â gofynion Cwricwlwm i Gymru 2022, yn ymwneud â'r pwnc o'r enw 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Mae'r Maes Llafur Cytûn blaenorol, sy'n dal yn berthnasol i ysgolion uwchradd am y rhesymau a ddisgrifir uchod, yn ymwneud â'r pwnc o'r enw 'Addysg Grefyddol'. Mae hwn yn wahaniaeth pwysig.

Mabwysiadodd Gwynedd y 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3–19 oed' fel y Maes Llafur Cytûn lleol ar gyfer 'Addysg Grefyddol' yn 2008. I lawrlwytho copi o'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol, cliciwch ar y delweddau uchod.

3) **Estyn**



Cynhaliodd Estyn adolygiad thematig o Addysg Grefyddol yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Cyhoeddodd Estyn ei ganfyddiadau ym mis Mehefin 2018. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion yn sgil ei ganfyddiadau. Cliciwch ar y ddelwedd i weld yr adroddiad:

Mae Estyn yn darparu **Canllawiau Atodol** i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant. Yn 2021, cyhoeddodd Estyn ganllawiau ar '*Gydraddoldeb, hawliau dynol a Saesneg fel iaith ychwanegol'*. Gellir cefnogi llawer o'r agweddau y *dylai arolygwyr eu hystyried* wrth arolygu'r maes hwn drwy addysgu AG neu CGM yn effeithiol.

Mae Estyn hefyd yn cyhoeddi astudiaethau achos o **Arfer Effeithiol**. Mae'r canlynol yn amlygu arfer da mewn CGM neu AG.

- Darpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o hanesion, straeon a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (Mai 2025)
- Podlediad Sgwrs: Tuag at Gymru Wrth-hiliol (Chwefror 2025)
- Hyrwyddo datblygiad amlddiwylliannol a moesol disgyblion. (Mai 2024)
- Sut mae'r ysgol yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored ehangach a'r gymuned (Cynefin) i wella profiad dysgu disgyblion. (Gorffennaf 2023)

4) **Polisi CGM Enghreifftiol**

- Mae CYS(AG) wedi datblygu polisi enghreifftiol ar gyfer CGM – Mae'n bwysig nodi nad oes gofyniad i ysgolion gael polisi CGM. Fodd bynnag, gall y polisi hwn helpu i egluro sut y dylid cynllunio a chyflwyno CGM yn eich ysgol.
- Polisi CGM – Saesneg
- Polisi CGMoeseg – Cymraeg

5) **Cwricwlwm i Gymru 2022**

I gael gwybodaeth am Gwricwlwm i Gymru 2022, gwyliwch y sesiwn hyfforddi 35 munud hon a drefnwyd gan Awdurdod Lleol Sir Ddinbych.

6) **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg – Canllawiau Ategol**



Crëwyd Canllawiau Ategol i gefnogi dealltwriaeth o CGM a'r gwaith o'i gynllunio yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae'r canllawiau'n cynnwys gwybodaeth am:

- Cysyniadau CGM
- Cysyniadau wedi'u croesgyfeirio â Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a Disgrifiadau Dysgu Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau
- Lensys CGM
- Teithiau CGM
- Pwyntiau i ysgolion a lleoliadau eu hystyried.

Lawrlwythwch gopi gan ddefnyddio'r dolenni isod:
Saesneg
Cymraeg

7) **Dadansoddi Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Uwchradd)**

Yn ystod tymor yr haf, darparodd GwE ddwy sesiwn hyfforddi i athrawon dyniaethau ysgolion uwchradd, gan gyflwyno negeseuon allweddol ynghylch y Maes Dysgu a Phrofiad hwn.
Ffocws y sesiwn gyntaf:

- Dealltwriaeth o elfennau gorfodol fframwaith Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â'r Dyniaethau
- Egwyddorion cynllunio ac ystyriaethau allweddol ar gyfer y Dyniaethau
- Yr ystyriaethau addysgegol yn yr adran 'Cynllunio eich cwricwlwm' a amlinellir yng nghanllawiau'r Maes Dysgu a Phrofiad

Cyflwyniad Saesneg
Cyflwyniad Cymraeg
Fideo Saesneg
Fideo Cymraeg

Ffocws yr ail sesiwn:

- Datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r continwwm dysgu
- Ystyried dulliau cynllunio ac asesu
- Archwilio dulliau addysgegol effeithiol o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad a thu hwnt iddo

Cyflwyniad Saesneg
Cyflwyniad Cymraeg
Fideo Saesneg
Fideo Cymraeg


8) **Canllaw Cynhwysfawr i AG ac AG yn y Cyfnod Sylfaen**

Mae'r CYS(AG) a'r ALl wedi darparu dogfennau a deunyddiau cynhwysfawr yn flaenorol i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol, ac mae'r rhain yn cynnwys cyngor ar ddulliau addysgu a chyflwyno AG.

Mae ysgolion yn parhau i gael mynediad at y dogfennau cynllunio ‘Canllaw Cynhwysfawr i AG’ ac ‘AG yn y Cyfnod Sylfaen’, sy’n ategu’r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol, ac i’w defnyddio. Gellir addasu’r adnoddau hyn ar gyfer cyflwyno CGM yn y sector cynradd, a byddant yn parhau i fod yn berthnasol i grwpiau blwyddyn sy’n cael eu haddysgu mewn Addysg Grefyddol. Mae’r adnoddau ar gael ar Rwydwaith Hwb – Rhwydwaith Addysg Grefyddol Gogledd Cymru. I lawrlwytho copi o’r adnoddau hyn, ewch i:


Canllaw Cynhwysfawr i AG
Saesneg
Cymraeg





AG yn y Cyfnod Sylfaen
Saesneg
Cymraeg





9) **Marc Ansawdd Addysg Grefyddol**



Mae deunyddiau hunanwerthuso yn parhau i gael eu hyrwyddo ac maent ar gael ar wefan REQM. Mae’r Marc Ansawdd AG yn cydnabod, yn dathlu ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i addysg grefyddol ragorol ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon drwy ei dair lefel o ddyfarniad: efydd, arian ac aur. Mae rhagor o wybodaeth am y marc ansawdd ar gael yn https://www.reqm.org/

Deunyddiau Hunanwerthuso:
RE-Quality-Mark-Criteria-2024.docx
Meini-Prawf-MAAG-2024.docx

10) **Rhwydwaith AG Gogledd Cymru ar Hwb**

Mae deunyddiau addysgu ac ymchwil ar gael i athrawon drwy rwydwaith AG Gogledd Cymru ar Hwb – https://hwb.gov.wales/go/d8tfh3. Dim ond y rhai sydd â chyfrif Hwb fydd yn gallu cael mynediad at y deunyddiau ar y rhwydwaith hwn. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys adnoddau addysgu a deunyddiau ymchwil sy'n berthnasol i Addysg Grefyddol. Y deunyddiau ymchwil allweddol sydd ar gael yw:

- Syniadau Mawr ar gyfer Addysg Grefyddol – Golygwyd gan Barbara Wintersgill (Saesneg yn unig)
- Signposts – Polisi ac arfer ar gyfer addysgu am grefyddau a bydolygon anghrefyddol (Saesneg yn unig)
- Addysgeg cofleidio: diwinyddiaeth lletygarwch fel fframwaith addysgegol ar gyfer addysg grefyddol mewn ysgolion Eglwys (Saesneg yn unig)
- Pa mor dda y mae Cynllun Gwaith trawsgwricwlaidd y Dyniaethau yn adlewyrchu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru newydd 2022?

11) **RE:Online**

RE:Online yw gwefan a ddatblygwyd gan Culham St Gabriel's i arfogi athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol ac i ddarparu adnoddau iddynt er mwyn cefnogi addysg o ansawdd uchel am grefydd a bydolygon.

12) Dyfarniad lefel 2 AGORED Cymru mewn archwilio bydolygon

Mae ‘Archwilio Bydolygon’ AGORED yn gyfres o gymwysterau lefel 1 a 2 sy’n cefnogi dealltwriaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol. Mae’r cymhwyster yn bodloni’r tair sgil graidd a nodir yn y fframwaith enghreifftiol (y cwricwlwm presennol), ac mae’n darparu cyfleoedd i archwilio cysyniadau CGM drwy’r datganiadau o’r hyn sy’n bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yng Nghwricwlwm i Gymru (y cwricwlwm newydd). Nid yw wedi’i gynllunio i ddisodli’r TGAU Astudiaethau Crefyddol presennol; fodd bynnag, bydd yn darparu cymhwyster cydnabyddedig hygyrch gan ganiatáu i ysgol gyflawni ei rhwymedigaeth statudol yng Nghyfnod Allweddol 4. Ni fydd yn cael ei gynnig o fis Medi 2027. Mae rhagor o fanylion ar gael drwy ymweld â

Saesneg - https://www.agored.cymru/Units-and-Qualifications/Learning-Core/Exploring-Worldviews

Cymraeg - https://www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Craidd-Dysgu/Archwilio-Bydolygon

12) **TGAU Astudiaethau Crefyddol CBAC - Addysgu o 2025**

Gellir cael mynediad at fanylebau’r cyrsiau TGAU a Safon Uwch yma.

- TGAU
- Safon Uwch

Mae’r ddolen ganlynol yn cynnwys dyddiadau cyhoeddi’r fanyleb, deunyddiau asesu a chanllawiau addysgu.

14) Dysgu proffesiynol am amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL)

Mae gwefan DARPL yn cynnwys ystod o ddeunyddiau hyfforddi i gefnogi’r agwedd bwysig hon ar Gwricwlwm i Gymru 2022.
Saesneg - https://darpl.org/
Cymraeg - https://darpl.cymru/

13) **Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Grefyddol**

Mae ysgolion wedi cael gwybod am yr adnoddau gwrth-hiliol a ddarparwyd gan NATRE. Yn anffodus, dim ond yn Saesneg y mae'r adnoddau hyn ar gael. Gellir cael mynediad atynt yma… https://www.natre.org.uk/about-natre/projects/anti-racist-re/

14) **RE Today Services**

RE Today yn darparu adnoddau i gefnogi athrawon wrth iddynt ymgysylltu â Chwricwlwm i Gymru.

15) **Challenging Religious Issues Ôl-16 (E-Gyfnodolyn)**





Mae Challenging Religious Issues yn gyfnodolyn i fyfyrwyr ac athrawon Astudiaethau Crefyddol UG a Safon Uwch. Mae hefyd yn adnodd defnyddiol i unrhyw un sydd am ddatblygu neu adnewyddu ei wybodaeth bynciol. Mae dros 65 o erthyglau mynediad agored wedi'u cyhoeddi yn y cyfnodolyn hyd yma, gan gynnwys erthyglau gan ysgolheigion ac ymarferwyr blaenllaw. Mae'r erthyglau'n gysylltiedig â manylebau Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch. Mae'r erthyglau'n rhyngweithiol drwy ddefnyddio 'pwyntiau trafod' a dolenni byw i wefannau allanol perthnasol. Mae pob rhifyn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Canolfan San Silyn wedi ariannu a rheoli'r fersiwn Gymraeg o rifyn 14 ymlaen. Cliciwch ar y ddolen isod i gael mynediad at Challenging Religious Issues ar wefan Canolfan San Silyn.
Saesneg - https://stgilescentre.org/16-2/
Cymraeg - https://stgilescentre.org/cy/16-2/

16) **Fforwm Ewropeaidd Athrawon Addysg Grefyddol**

Mae'r ffordd y caiff AG ei haddysgu yn amrywio'n fawr ar draws Ewrop. I gael gwell dealltwriaeth o AG mewn gwledydd cyfagos, ewch i www.eftre.net

17) **Modiwlau Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru ar gyfer CGM**

Bwriad yr adnoddau hyn yw cefnogi ymarferwyr gyda'r newidiadau i CGM (Addysg Grefyddol gynt) o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae'r modiwlau wedi'u teilwra'n benodol ac yn anelu at gefnogi ymarferwyr. Maent yn helpu gyda'r newid i ffordd newydd o feddwl, cynllunio a chyflwyno cwricwlwm CGM sy'n bwrpasol i ddysgwyr yng Nghymru. Mae pum modiwl ar hyn o bryd:

Gellir cael mynediad at y modiwlau yma:
Saesneg - Ystorfa - Hwb (gov.wales)
Cymraeg - Ystorfa - Hwb (gov.wales)

18) **Dysgu Proffesiynol ar Faes Llafur Cytûn Conwy**
Darparwyd dysgu proffesiynol i athrawon Conwy ar ofynion y Maes Llafur Cytûn. Cafodd aelodau CYS(AG) grynodeb o'r hyfforddiant a ddarparwyd i athrawon.
Gellir cael mynediad at fideo a chyflwyniad PowerPoint o'r crynodeb hwn isod:
Fideo
Cyflwyniad

19) **RE HUBS**
Adnodd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth i gefnogi addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys manylion siaradwyr gwadd, mannau o ddiddordeb a dolenni i ystod eang o ddeunyddiau ac adnoddau hyfforddi.

20) **Canolfan Genedlaethol AG Cymru**

Gall athrawon ar draws yr ALl gael cymorth proffesiynol gan Ganolfan Genedlaethol AG Cymru. Mae'r ganolfan yn darparu deunyddiau a dosbarthiadau adolygu Safon Uwch a TGAU, a Dysgu Proffesiynol i athrawon uwchradd ar ystod o grefyddau a bydolygon.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar eu Tudalen Facebook

21) **Canolfan San Silyn (Wrecsam)**
   i. Archwilio Ein Byd **(3–7 oed)**

ii. Archwilio Pam **(5–7 oed)**
iii. Randalph Ddoeth – Straeon am daith ysbrydol a chwilio am ystyr **(8–11 oed)**
iv. Cyfres Ffydd y Byd **(8–11 oed)**

CABINET CYNGOR GWYNEDD

Adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	**Medi 2022**
Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Beca Brown**
Swyddog Cyswllt:	**Buddug Mair Huws**
Rhif Ffôn Cyswllt:	**34319**
Teitl yr Eitem:	**ADOLYGU CYFANSODDIAD CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) GWYNEDD**

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

(i) Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo argymhelliad yr Adran Addysg a Phwyllgor CYSAG Gwynedd i newid aelodaeth Grŵp B, fel y nodir:

- **Grŵp A – Cristnogaeth a Chredoau Eraill**

- **Grŵp B – cynrychiolaeth Athrawon a Phenaethiaid – cadw'r nifer yn 5**

  Bydd y seddi'n cael eu dyrannu fel a ganlyn:
  3 sedd i'w rhannu rhwng yr Undebau Athrawon cydnabyddedig (NAS/UWT; UCAC; NEU; ASCL a NAHT) – i'w penderfynu gan Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd.
  1 sedd i'w llenwi gan y Grŵp Ymgynghorol Dalgylchoedd Cynradd ac Arbennig (GYDCA)
  1 sedd i'w llenwi gan Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU)

- **Grŵp C – Aelodau Etholedig – cadw'r nifer yn 7**

- **Aelodau Cyfetholedig – Pwyllgor CYSAG i gadw'r hawl i gyfethol aelodau**

- **(mae 3 phleidlais, sef 1 i bob Grŵp. Nid oes gan yr aelodau Cyfetholedig bleidlais)**

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Nid yw'r Cyngor wedi ystyried y cyfansoddiad ers 2019, ac o ganlyniad mae'r cyfansoddiad presennol yn nodi bod cynrychiolwyr athrawon yn dod o'r Undebau Athrawon sy'n weithredol o fewn yr Awdurdod:

ASCL (1)
NAS/UWT (1)
UCAC (1)
NUT (1)
ATL (1)

Fodd bynnag, unodd Undebau NUT ac ATL yn 2017 i greu Undeb NEU, ac mae Undeb NAHT hefyd yn cael ei gydnabod gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r Adran Addysg a CYSAG o'r farn bod angen cryfhau cynrychiolaeth yr athrawon ar y Pwyllgor er mwyn ychwanegu gwerth at gyfarfodydd a gweithredoedd y Pwyllgor.

Mae'r Grŵp Ymgynghorol Dalgylchoedd Cynradd ac Arbennig (GYDCA) yn grŵp sy'n cyfarfod yn fisol ac sy'n cynnwys un Pennaeth Cynradd o bob dalgylch yng Ngwynedd. Mae Grŵp Penaethiaid Uwchradd Gwynedd (GSCU) hefyd yn cyfarfod yn fisol ac yn cynnwys pob Pennaeth Uwchradd yng Ngwynedd. Credir y byddai'n briodol gofyn am enwebiad gan y ddau grŵp hyn er mwyn sicrhau cynrychiolaeth un pennaeth/athro cynradd ac un pennaeth/athro uwchradd ar bwyllgor CYSAG.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Cefndir
Mae Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sefydlu cyngor sefydlog i'w gynghori ar addysg grefyddol.

Swyddogaethau CYSAG

Yn unol â'r Cyfansoddiad, mae swyddogaethau CYSAG fel a ganlyn:

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar addoli mewn ysgolion ac ar yr addysg grefyddol sydd i'w darparu yn unol â'r maes llafur cytûn, gan gynnwys dulliau addysgu, cyngor ar ddeunyddiau a darparu hyfforddiant i athrawon;

- Ystyried a ddylid argymell adolygu maes llafur cytûn presennol yr Awdurdod Lleol drwy alw Cynhadledd Maes Llafur Cytûn [ASC];

- Ystyried ceisiadau gan ysgolion am benderfyniad (i'w heithrio o'r gofyniad y dylai addoli crefyddol fod yn "Gristnogol"):

- Adrodd yn ôl i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru ar ei weithgareddau yn flynyddol.

Aelodaeth CYSAG
Mae'r Ddeddf yn nodi y dylai CYSAG gynnwys cynrychiolwyr o blith y canlynol:

- Grŵp o bobl i gynrychioli'r enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill a fydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu'n briodol y prif draddodiadau crefyddol yn yr ardal ('Grŵp A')

- Grŵp o bobl i gynrychioli'r cymdeithasau sy'n cynrychioli athrawon y dylid, ym marn yr awdurdod, eu cynrychioli, gan roi sylw i amgylchiadau'r ardal (Grŵp B)

- Grŵp o bobl i gynrychioli'r awdurdod (Grŵp C)

Dim ond y grwpiau cynrychioliadol uchod sydd â'r hawl i bleidleisio, a bydd gan bob grŵp un bleidlais.

Gallai CYSAG ei hun hefyd gyfethol aelodau (ond ni fyddai ganddynt bleidlais)

Cylchlythyr 10/94
Yn ogystal â'r ddarpariaeth statudol, yn 1994 cyhoeddodd yr hen Swyddfa Gymreig ganllawiau ar Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd ar ffurf Cylchlythyr 10/94, sy'n cynnwys darpariaethau ynghylch gweithredu CYSAG.

CYSAG Cyngor Gwynedd
Adolygwyd aelodaeth CYSAG gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ebrill 2019, ac mae'r aelodaeth bresennol fel a ganlyn:

Cristnogion a Chrefyddau Eraill (Grŵp A)
Yr Eglwys Fethodistaidd
Undeb Bedyddwyr Cymru
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru
Undeb yr Annibynwyr
Yr Eglwys Gatholig
un cynrychiolydd o'r credoau canlynol: Bwdhaeth, Islam, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Sikhaeth a'r Dyneiddwyr

Athrawon yn cynrychioli'r Undebau canlynol
ASCL (1)
NAS/UWT (1)
UCAC (1)
NUT (1)
ATL (1)

Aelodaeth Aelodau Etholedig (7)
(Yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol)
(Aelodau yn rhinwedd eu swydd, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor)

Nid yw cyfansoddiad CYSAG wedi'i adolygu ers hynny.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Cyflwyno penderfyniad y Cabinet i Bwyllgor CYSAG ar 29 Tachwedd 2022.
4.2 Gweithredu'r newid i'r Cyfansoddiad yn unol â phenderfyniad y Cabinet.

5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1 **Barn Pwyllgor CYSAG Gwynedd ar addasu'r ffordd y gwahoddir cynrychiolwyr athrawon –** Byddai'n gyfle i CYSAG Gwynedd fod yn fwy cynrychioliadol a byddai'n eu galluogi i gynyddu cynrychiolaeth yr athrawon allweddol ar y Pwyllgor.**The Gwynedd SACRE Committee's opinion on adapting the way teachers' representatives are invited -** It would be an opportunity for Gwynedd SACRE to be more representational and will enable them to increase the key teachers' representation on the Committee

5.2 **Barn Fforwm Undebau Athrawon Gwynedd –** Mae angen diwygio'r cyfansoddiad i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol o ran undebau athrawon.

5.3 **Barn y Swyddogion Statudol:**

i. Y Swyddog Monitro: Mae'r adroddiad wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Nid oes sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb.

ii. Pennaeth Cyllid: Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

Cofnodion Cyfarfod Haf CCYSAGauC
Dydd Mercher 24 Mehefin 2026
9.30 – 12:30
Lletywyd gan CYS Conwy, rhithwir trwy Zoom
Cadeiriwyd gan Edward Evans
35 yn bresennol, yn cynnwys y gwestai arbennig, Anna Silver, a chynrychiolwyr CYSau ledled Cymru

Yn bresennol

Ynys Môn Phil Lord (PL) **Blaenau Gwent** Kathy Riddick (KR) **Pen-y-bont ar Ogwr** Edward Evans (EE) Alice Parry (AP) **Caerffili** Eifion ap Llwyd Dafydd (ELD) **Caerdydd** Corinne Hainsworth (CH) **Sir Gaerfyrddin** Jennifer Harding-Richards (JHR) **Ceredigion** Anne Uruska (AU) Rhianydd James (RJ) **Conwy** Phil Lord (PL) Dr Lowry Brown (LB) Roger Boon (RB) Josh Andrews (JA)	**Sir Ddinbych** Phil Lord (PL) Jennie Downes (JD) **Sir y *Fflint*** Lyn Oakes (LO) **Gwynedd** **Merthyr Tudful** Donna Graves (DG) **Sir Fynwy** Louise Brown (LB) Rachel Buckler (RB) Clare Werrett (CW) **Castell-nedd Port Talbot** Rachel Samuel (RS) **Casnewydd** **Powys** John Mitson (JM) Caroline Davies (CD)	**Rhondda Cynon Taf** Donna Graves (DG) Alison Lee **Torfaen** Hayley Jones (HJ) **Bro Morganwg** Kathy Riddick (KR) **Wrecsam** Tania ap Siôn (TS) Libby Jones (LJ) **CSC** Donna Graves (DG) **EAS** Hayley Jones (HJ) **PYCC** Phil Lord (PL) Donna Graves *(DG)* **EFTRE** Phil Lord (PL) **REC** Kathy Riddick (KR)	***Arsylwyr*** **CBAC** Chris Owens (CO) **ESTYN** Michelle Gosney (MG) **Eglwys yng Nghymru** Lisa Taylor (LT) **Gwasanaeth Addysg Gatholig** **CLILC** Elin Stock (ES) **Cymwysterau Cymru (CC)** Oliver Stacey (OS) **Gwesteion arbennig:** Anna Silver (AS) - Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain **Cyfieithydd:** Sioned Jones (SJ) Rhys Evans Sarah McErlaine Y Cynghorydd Sue Shotter Maddie Saraireh

Cofnodion y cyfarfod

1. **Cyflwyniad a Chroeso**

Agorodd y Cadeirydd, Edward Evans, y cyfarfod a chyflwynodd Dr. Lowri Brown, Prif Swyddog Addysg, a groesawodd y mynychwyr. Pwysleisiodd bwysigrwydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) o ansawdd uchel ledled Cymru a thynnodd sylw at y gwaith cydweithredol a wneir ar y meysydd llafur cytunedig ar gyfer CGM ledled Cymru. Myfyriodd Roger Boon, Cadeirydd ymadawol CYSAG Conwy, ar ei gyfnod yn y rôl a thynnodd sylw at ystod o faterion o ddiffyg athrawon arbenigol CGM cymwys yng Nghymru i'r diffyg canfyddedig o gynnwys CGM penodol yn y cynnig maes llafur newydd. Yna cafwyd munud o fyfyrio tawel dan arweiniad Edward Evans.

2. **Myfyrdod Tawel**

Cynigiodd Edward Evans fyfyrdodau ar wneud newidiadau cadarnhaol yn y byd a phwysigrwydd gweithredu unigol. Yn ogystal, rhannodd Ddatganiad Cyffredinol dros Heddwch.

3. **Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Vicky Barlow a'r Cynghorydd Nia Jenkins.

4. **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf (19 Mawrth 2026)**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 19 Mawrth ar ôl iddynt gael eu paratoi gan ddefnyddio DA gan RS a LJ.

Penderfyniad: Cymeradwywyd y cofnodion yn dilyn gwelliannau.

GWEITHREDU: EE i lofnodi'r cofnodion a LJ i ffeilio

5. **Materion yn Codi**

Dim materion ar wahân i’r eitemau oedd eisoes ar yr agenda.

6. **Cyflwyniad PYCCGM**

Cyflwynydd: Anna Silver - Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain

Cyflwynodd AS adnoddau newydd yn y Gymraeg ar gyfer addysgu Iddewiaeth, yn gynnwys Arddangosfa Profiad Byw Iddewig wedi'i diweddaru gyda 18 baner ac 8 blwch arteffactau sydd bellach ar gael yn y Gymraeg, a fersiwn Gymraeg o wefan Byw Iddewig Ar-lein. Gellir cludo'r arddangosfa o gwmpas Cymru ac mae ar hyn o bryd wedi'i storio yn Synagog Unedig Caerdydd, tra bydd yr adnodd ar-lein yn gwbl weithredol erbyn mis Medi. Cynigiodd AS hefyd rannu rhestr adnoddau gynhwysfawr a gwahodd athrawon i ymuno â sesiynau Holi ac Ateb misol i gael cefnogaeth gydag addysgu Iddewiaeth.

Derbyniodd y cyflwyniad adborth cadarnhaol gan y mynychwyr gan gynnwys RS a ganmolodd ansawdd y cynnwys Cymraeg. Gofynnodd sawl cyfranogwr i gael eu hychwanegu at restr bostio AS a mynegwyd diddordeb mewn ymweliadau ysgol. Cynigiodd AL gydlynu ymweliadau ysgol ledled Cymru yn cynnwys ymweliadau sydd ar y gweill yn ardaloedd Caerdydd, Casnewydd, a Chastell-nedd Port Talbot. Trafododd y grŵp hyrwyddo cynrychiolaeth Iddewig ar bwyllgorau

CYSAG a digwyddiadau posibl yn y dyfodol, gan gynnwys cynlluniau AL i drefnu diwrnod ymweliad athrawon yn y synagog.

GWEITHREDU:

- AS i anfon ei chyflwyniad at Libby i'w ddosbarthu ymlaen.
- LJ i ddosbarthu dolen y cyflwyniad ac adnoddau cysylltiedig i bob clerc CYSAG, yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer dilyniant.
- AL i barhau i gydlynu a chynnig ymweliadau ysgol gan ddefnyddio'r Arddangosfa Profiad Byw Iddewig a hysbysu'r rhai â diddordeb am ddigwyddiadau yn y dyfodol i athrawon.

7. Materion Llywodraeth Cymru

Darparwyd diweddariadau Llywodraeth Cymru gan LJ. Roeddent yn gysylltiedig â'r cyfarfod diweddar ar 17-6-26

Pobl yn bresennol:

- CCYSAGauC – Edward Evans, Rachel Samuel, Tania ap Sion a Libby Jones
- Llywodraeth Cymru – Claire Habberfiled ac Angharad Thomas-Richards

Mae gan Angharad rôl drosfwaol yn y Llywodraeth - Pennaeth Dros Dro'r Dyniaethau ac mae hi'n gyn athrawes Hanes gydag Addysg Grefyddol fel ail bwnc. Mae Sam Clutton bellach wedi gadael tîm y Dyniaethau.

Roedd y pwyntiau trafod yn cynnwys:

- Canllawiau CGM i Rieni a Gofalwyr – diweddariad
- Adolygiad Canllawiau Addoli ar y Cyd – diweddariad
- Canfyddiadau o Adroddiad Thema Drawsbynciol Estyn ar y Dyniaethau
- Argyfwng recriwtio a chadw CGM / Dyniaethau a materion cysylltiedig
- Llwyth gwaith athrawon yn sgil y TGAU newydd
- Adolygiad o Adroddiadau Blynyddol CYSAG
- Prosiect Llais yr Athro

Roedd y penderfyniadau'n cynnwys: Cydweithwyr LlC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Swyddogion CCYSGAGauC ar bob pwynt trafod a threfnu dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol ymlaen llaw yn ogystal ag ymestyn y cynnig o gyfarfodydd ad hoc pan fo angen.

GWEITHREDU:

- LJ i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â LlC i gael diweddariadau pellach

8. Adroddiad Blynyddol Estyn – Thema drawsbynciol y Dyniaethau

Cyflwyniad gan Michelle Gosney o Estyn ar Adroddiad Blynyddol Thema Drawsbynciol yr Adroddiad Blynyddol ar y Dyniaethau.

Cyflwynodd MG ganfyddiadau o'r adolygiad cwricwlwm oedd yn tynnu sylw at wendidau mewn addysgu'r dyniaethau, yn enwedig o ran cynllunio, cydbwysedd pynciau, a datblygu sgiliau penodol ar draws gwahanol gyfnodau addysgol. Dangosodd yr adolygiad, er bod ysgolion

cynradd yn gyffredinol yn cydnabod gwerth trawsgwricwlaidd, eu bod yn aml yn brin o ddatblygiad mewn sgiliau disgyblaethau, ac mae hanes yn tueddu i ddominyddu ar draul daearyddiaeth a CGM. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r dull integredig o ymdrin â'r dyniaethau weithiau'n brin o gydlyniant, ac mae tuedd gynyddol o staff yn addysgu y tu allan i'w harbenigedd pwnc oherwydd problemau recriwtio a modelau cwricwlwm. Roedd pryderon allweddol yn cynnwys diffyg dysgu proffesiynol i athrawon, amser cwricwlwm cyfyngedig ar gyfer CCM a thangynrychiolaeth grwpiau Du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig yng nghynnwys y cwricwlwm. Nodwyd arweinyddiaeth effeithiol fel ffactor pendant mewn darpariaeth gref yn y dyniaethau, gydag arweinwyr angen sicrhau digon o amser cynllunio cwricwlwm, buddsoddi mewn dysgu proffesiynol staff, a defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i werthuso effaith. Datgelodd y drafodaeth, er bod gan ysgolion hyblygrwydd i ddewis rhwng dulliau addysgu'r dyniaethau neu ddulliau addysgu penodol i bynciau, bod y canfyddiadau cyfredol yn adlewyrchu canlyniadau disgwyliedig ailgynllunio'r cwricwlwm, yn enwedig o ran heriau addysgu anarbenigol a datblygu gwybodaeth am bynciau.

GWEITHREDU:

- MG i anfon cyflwyniad Adroddiad Thematig Estyn ar y Dyniaethau at LJ i'w ddosbarthu i CYSAGau a phobl berthnasol.

9. Prosiect Llais yr Athro (Ymchwil a gefnogir gan CCYSAGauC)

Rhoddodd TaS ddiweddariad ar adroddiad Prosiect Llais yr Athro, gan egluro, er bod yr adroddiad llawn wedi'i ohirio oherwydd y broses o ddadansoddi data ansoddol (sy'n cymryd llawer o amser) fod cyflwyniad PowerPoint byrrach eisoes ar gael drwy GYSAGau lleol. Cyfeiriodd TaS at weminar CCYSAGauC (25 Mawrth 2026) a gyflwynodd ganfyddiadau cychwynnol o'r arolwg cyn yr adroddiad terfynol.

GWEITHREDU:

- Anfon y PowerPoint troslais byrrach ar gyfer Prosiect Llais yr Athro yn uniongyrchol at LB (ac unrhyw rai perthnasol eraill) i'w ddefnyddio cyn cyfarfodydd sydd i ddod.

10. Cynhadledd Undydd Ar y Cyd AULRE a CCYSAGauC yng Nghaerdydd

Adroddodd Rachel ar gynlluniau i AULRE a CCYSAGauC gynnal Cynhadledd Undydd ar y cyd yng Nghaerdydd ddechrau mis Medi. Fodd bynnag, roedd hi'n dal i aros am gadarnhad o'r lleoliad gan Mark Bryant.

GWEITHREDU:

- RS i ofyn i Mark Bryant gadarnhau lleoliad diwrnod cynhadledd ar y cyd AULRE / CCYSAGauC a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau drwy'r CYSAGau pan dderbynnir gwybodaeth.

11. Cymwysterau

Rhoddodd OS ddiweddariadau ar gymwysterau sy'n berthnasol i CGM, gan gynnwys y cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd a Gwaith yn Nhon Tri, sy'n cael eu datblygu gan bum corff dyfarnu gyda manylebau i'w cyhoeddi ym mis Medi. Trafododd adborth gan y grŵp ymarferwyr astudiaethau crefyddol TGAU ynghylch heriau cynnwys, materion asesu, ac enillion cyflym posibl megis ymestyn dyddiadau cau cyflwyno Asesiadau Di-arholiad a gwneud briffiau'n ddilys am ddwy flynedd. Hefyd, mynegodd y grŵp bryderon ynghylch diffyg cymwysterau ar gyfer

myfyrwyr uchel eu cyflawniad a diffyg opsiwn cwrs byr, gydag OS yn cytuno i fwydo'r rhain yn ôl i'r tîm gweithredol.

GWEITHREDU:

- OS i wirio a chadarnhau a all ysgolion gymysgu a chyfateb unedau o wahanol gyrff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd a Gwaith newydd, ac adrodd yn ôl i LJ.
- OS i fynd â'r pryderon a godwyd ynghylch effaith cymwysterau newydd ar ysgolion heb athrawon arbenigol yn ôl i Gymwysterau Cymru.
- OS i fynd â'r pryderon a godwyd ynghylch capio'r cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd Lefel 2 newydd a'r diffyg darpariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n cyflawni'n uwch yn absenoldeb cwrs byr TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol yn ôl i Gymwysterau Cymru.

12. Adroddiad y Pwyllgor Gwaith (13 Mai 2026)

Roedd y cyfarfod yn cynnwys nifer o ddiweddariadau a thrafodaethau. Mae'r rhan fwyaf o'r eitemau oedd ar yr agenda ar yr agenda hwn, yn cynnwys cyfarfodydd Llywodraeth Cymru a'r diweddariadau arferol. Rhannwyd gohebiaeth yn eitem 14.

Cyhoeddodd EE na fydd CYSAGau yn bodoli mwyach o fis Medi 2026, ac ar ôl trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith, ond gwnaed y penderfyniad i gadw'r enw CCYSAGauC. Cymeradwyodd Rachel Buckler ac eraill y penderfyniad ar ôl trafodaeth drylwyr.

13. Diweddariadau

Cyflwynwyd diweddariadau gan PYCCGM, CBAC, REC, EFTRE, a materion / ymholiadau lleol ar ffurf ysgrifenedig am y tro cyntaf, gyda'r cyfranogwyr yn cytuno'n gyffredinol bod y dull hwn yn fuddiol. Roedd gwybodaeth ychwanegol yn cynnwys:

- PYCCGM:

Trafododd y cyfarfod diweddar sawl pwnc allweddol yn ymwneud â CGM a phroblemau cyfoes. Cyflwynodd PL ddeunyddiau a grëwyd gan aelodau PYCCGM gan ddefnyddio adnoddau Estyn o adroddiad Thema Drawsbynciol y Dyniaethau a oedd yn trafod Hunanwerthuso a gwella ysgolion. Roedd yr adnoddau hyn wedi'u hailysgrifennu o safbwynt CGM a'u rhannu gyda phob Ymgynghorydd CGM i'w defnyddio gydag ysgolion lleol. Gwahoddodd PL y CYSAGau i gysylltu ag ef gydag unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

14. Gohebiaeth

- Meithrin Deialog Ryngddisgyblaethol Ddyfnach – Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Christchurch Caergaint

Rhoddodd Tania y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y prosiect "Meithrin Deialog Ryngddisgyblaethol Ddyfnach", gan egluro ei fod wedi'i addasu i gynnwys gweminarau wedi'u recordio yn hytrach nag ymgysylltiad personol ag athrawon, a'i bod hi wedi cyfrannu gweminar yn bersonol o'r enw "Cael eich Llunio gan Le, Gweddi, Byw gyda Natur a'r Cysegredig".

- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) sy'n effeithio ar ysgolion yng Nghymru

Adroddodd TaS ar ohebiaeth â Phrifysgol Bangor ynghylch eu cais Rhyddid Gwybodaeth, a achosodd aflonyddwch i ysgolion, ac argymhellodd gloi'r ohebiaeth gyda nodyn i ddiolch.

Cyflwynodd Libby ganllawiau a grëwyd gan CCYSAGauC i helpu ymgynghorwyr CYSAG i fynd i'r afael â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol, a oedd yn cynnwys eglurhad ar gwestiynau am addysg grefyddol a pholisïau ymwelwyr.

Cytunodd y grŵp i anfon llythyr diolch terfynol at Brifysgol Bangor i gau'r ohebiaeth honno a thrafod y posibilrwydd o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch rôl cyrff llywodraethu mewn ymatebion Rhyddid Gwybodaeth.

GWEITHREDU: • TaS i ddrafftio ac anfon ymateb terfynol i Brifysgol Bangor, gan ddiolch iddynt am eu hymateb a gwneud sylwadau, i gau gohebiaeth ynghylch y cais Rhyddid Gwybodaeth. • Ail-anfon y ddogfen ganllawiau Rhyddid Gwybodaeth at RB (Conwy) a Corinne Hainsworth (Caerdydd). • Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru (neu gydlynu â swyddogion CCYSAGauC) i sicrhau bod yr adolygiad o gyrff llywodraethu yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddyletswydd statudol llywodraethwyr ynghylch CGM ac ystyriaeth o gyfrifoldebau Rhyddid Gwybodaeth.

15. Unrhyw Fater Arall

Dim busnes arall

16. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 10 Tachwedd, a gynhelir gan Geredigion (ar-lein).

Crynodeb o'r Camau Gweithredu Allweddol

Camau gweithredu	**Person**
Llofnodi cofnodion a ffeilio	EE (WE) ac LJ (PG)
• Anfon y cyflwyniad i i'w ddosbarthu ymlaen. • Dosbarthu dolen y cyflwyniad ac adnoddau cysylltiedig i bob clerc CYSAG, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer dilyniant. • Parhau i gydlynu a chynnig ymweliadau ysgol gan ddefnyddio'r Arddangosfa Profiad Byw Iddewig a hysbysu'r rhai â diddordeb am ddigwyddiadau yn y dyfodol i athrawon.	AS(BoDBJ) LJ (PG) AL (RCT)
Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â LlC i gael y wybodaeth ddiweddaraf.	LJ (PG)
Anfon cyflwyniad Adroddiad Thematig Estyn ar y Dyniaethau i'w ddosbarthu i CYSAGau a phartïon perthnasol.	MG (E) ac LJ (PG)
Anfon y PowerPoint troslais byrrach ar Brosiect Llais yr Athro yn uniongyrchol at LB (ac unrhyw rai perthnasol eraill) i'w ddefnyddio cyn cyfarfodydd sydd i ddod.	LJ (PG)

Cysylltu â Mark Bryant i gadarnhau lleoliad cynhadledd undydd ar y cyd AULRE / CCYSAGauC a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau drwy'r CYSAGau pan dderbynnir gwybodaeth.	RS (PG)
• Gwirio a chadarnhau a all ysgolion gymysgu a chyfateb unedau o wahanol gyrff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd a Gwaith newydd, ac adrodd yn ôl i LJ. • Ewch yn ôl i Gymwysterau Cymru â'r pryderon a godwyd ynghylch effaith cymwysterau newydd ar ysgolion heb athrawon arbenigol. • Cyflwyno'r pryderon a godwyd ynghylch capio'r cymwysterau Sgiliau ar gyfer Bywyd Lefel 2 newydd a'r diffyg darpariaeth ar gyfer myfyrwyr â chyrhaeddiad uwch yn absenoldeb cwrs byr TGAU mewn Astudiaethau Crefyddol i Gymwysterau Cymru.	OS (CC) OS (CC) OS (CC)
• Drafftio ac anfon ymateb terfynol i Brifysgol Bangor, gan ddiolch iddynt am eu hymateb a gwneud sylwadau, i gau gohebiaeth ynghylch y cais Rhyddid Gwybodaeth. • Ail-anfon y ddogfen ganllawiau Rhyddid Gwybodaeth at RB (Conwy) a Corinne Hainsworth (Caerdydd). • Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru (neu gydlynu â swyddogion CCYSAGauC) i sicrhau bod yr adolygiad o gyrff llywodraethu yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddyletswydd statudol llywodraethwyr ynghylch CGM ac ystyriaeth o gyfrifoldebau Rhyddid Gwybodaeth.	TaS (PG) LJ (PG) KR (PG)

Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC (PG)